O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 580 (Cy. 134)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A487, yr A4076, yr A477, yr A48, yr A483, yr A465, yr A470, yr A4060, yr A4232, yr A4042, yr A449 a'r A466 a Thraffyrdd yr A48(M), yr M4 a'r M48 (Lleoliadau Amrywiol yn Ne a Gorllewin Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Mai 2022* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A40, yr A449, yr A487, yr A4076, yr A477, yr A48, yr A4232 yr A466, yr A483, yr A465, yr A4042, yr A470 a'r A4060 a thraffyrdd yr A48(M), yr M4 a'r M48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd a'r traffyrdd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd yn codi o ganlyniad i gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A487, yr A4076, yr A477, yr

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

A48, yr A483, yr A465, yr A470, yr A4060, yr A4232, yr A4042, yr A449 a'r A466 a Thraffyrdd yr A48(M), yr M4 a'r M48 (Lleoliadau Amrywiol yn Ne a Gorllewin Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Mai 2022.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") ac "y traffyrdd" ("*the motorways*") yw cefnffyrdd yr A40 Llundain i Abergwaun, cefnffordd yr A40 Llandeilo i Gaerfyrddin, cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, cefnffyrdd yr A40 a'r A449 Casnewydd i Gaerwrangon, cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, cefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau, cefnffordd yr A477 Doc Penfro i Sanclêr, cefnffyrdd yr A48, yr A4232 a'r A466 Llundain i Abergwaun, cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion, cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni, cefnffyrdd yr A465 a'r A4042 Casnewydd i'r Amwythig, cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig, cefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais, traffordd yr A48(M) Llundain i Abergwaun a thraffyrdd yr M4 a'r M48 Llundain i Dde Cymru yn Ne a Gorllewin Cymru;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 31 Mai 2022 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r traffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Mai 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

1. Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Wdig, Sir Benfro hyd at ffin Cymru/Lloegr i'r dwyrain o Drefynwy, Sir Fynwy, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau ar hyd y llwybr hwn.

2. Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Scotchwell hyd at ei chyffordd â'r A4076 wrth Gylchfan Salutation Square, Hwlffordd, Sir Benfro, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square.

3. Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 1 cilometr i'r gogledd o Sgwâr Abergwaun, Abergwaun, Sir Benfro hyd at ei chyffordd â Chylchfan Aberteifi, Ceredigion, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y gylchfan honno.

4. Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square, Hwlffordd hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Victoria Road, Aberdaugleddau, Sir Benfro, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau ar hyd y llwybr hwn.

5. Y darn o gefnffordd yr A477 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin hyd at ei chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau ar hyd y llwybr hwn.

6. Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin, hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau a'r holl ffyrdd ymuno ac ymadael ar hyd y llwybr hwn.

7. Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan High Beech, Cas-gwent hyd at ffin Cymru/Lloegr ger Cas-gwent, Sir Fynwy.

8. Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd ymuno'r M4 wrth Gyfnewidfa Earlswood hyd at ei chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau ar hyd y llwybr hwn.

9. Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â Chylchfan Llandeilo, Sir Gaerfyrddin.

10. Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot hyd at ffin Cymru/Lloegr yn Llangiwa, Sir Fynwy, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau a'r holl ffyrdd ymuno ac ymadael ar hyd y llwybr hwn.

11. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd hyd at ei chyffordd â Chylchfan Tarrell, Aberhonddu, Powys, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau a'r holl ffyrdd ymuno ac ymadael ar hyd y llwybr hwn.

12. Y darn o gefnffordd yr A4060 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Abercannaid hyd at ei chyffordd â Chylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau ar hyd y llwybr hwn.

13. Y darn o gefnffordd yr A4232 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Capel Llanilltern, a chan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol y gylchfan honno, hyd at Gyfnewidfa Croes Cwrlwys, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael ar hyd y llwybr hwn.

14. Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o Gyffordd 25 (Caerllion) yr M4 hyd at Gyfnewidfa Hardwick, Y Fenni, Sir Fynwy, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol yr holl gylchfannau ar hyd y llwybr hwn.

15. Y darn o gefnffordd yr A449 sy'n ymestyn o Gyfnewidfa Coldra, Casnewydd, gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol a'i chyffordd 'hamburger', hyd at ei chyffordd â'r A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael ar hyd y llwybr hwn.

16. Y darn o gefnffordd yr A466 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd â Chylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol y ddwy gylchfan.

17. Y darn o draffordd yr A48(M) sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r M4 wrth Gyffordd 29 (Cas-bach),

Casnewydd, hyd at ei chyffordd â'r A48 Eastern Avenue, Caerdydd, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael ar hyd y llwybr.

18. Y darn o draffordd yr M4 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr i'r dwyrain o Gyffordd 23 (Rogiet), Sir Fynwy hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael ar hyd y llwybr hwn.

19. Y darn o draffordd yr M48 sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 2 (Newhouse) hyd at ei chyffordd â'r M4 wrth gyffordd 23 (Rogiet), gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.